Ysgol Pentrecelyn, fy ysgol i, yr ysgol orau yn y byd. Ers i mi agor fy llygaid a gweld yr ysgol am y tro cyntaf roeddwn yn gwbod bydd yr ysgol hon yn werth y byd. Dim rhy fach,dim rhy fawr fedrai ddim dymuno gwell.

Rwyf wrth fy modd yn gweld plant yn chwarae ac yn cydweithio a hefyd rwyn hoffi clywed plant yn chwerthin a cael hwyl ar y buarth.Y Cyfnod Sylfaen yn chwarae yn y gornel chwarae gyda Anti Sue a'r plant yn chwarae ac yn mwynhau ar yr hop scotch. Ond beth arall welai i gyda fy llygaid bach i yw defibrilator yn barod i achub bywydau. Hefyd, rwyf yn gweld ffens gwyrdd yn asio fewn i fyd natur fel ein gwisg ysgol.

Hoffi clywed hen hanesion yr ysgol ac gweld hen adfail cloc sydd wedi stopio tician ers oes. Hefyd mae gasibo pren yn sefyll yn gryf gyda Cofiwch Dryweryn yn ein ysgol ac rwy'n teimlo yn falch iawn i fod yn yr ysgol. Cofio ymweliad Eurgain Prysor yn trafod gwaith Cymdeithas yr Iaith, ac fel yn y 60au roedd llawer o bobol yn peintio'r arwyddion yn wyrdd, dyma'r adeg ysgrifennodd Dafydd Iwan gan or enw Peintio'r byd yn wyrdd. Son am Dafydd Iwan mae o wedi cael rhif un yn ddiweddar gyda Yma o Hyd. Ambell i flwyddyn yn nol roedd ein ysgol am gau ond rydem ni yma o hyd! Amser chwarae pan rwyf yn rhedeg wrth chwarae tag rwy'n teimlo gwynt yn chwyrlio rownd fy nghorff. Ond un o'r pethau rwy wrth fy modd yn gweld yw'r olygfa mawr o Sir Ddinbych. Cofiaf yn adeg y mabolgampau wrth i mi rhedeg y ras ac arogl barbaciw yn fy ffroenau.

Yn yr ardd rwyn arogli blodau hyfryd fel Lili wen fach a Cenin pedr. Ar ddiwrnod tawel, clywed adar yn canu ac yn siarad gyda ei gilydd. Ond, pan rydw i ar y cae mae y bariau Gymnasteg yn dal fy llygaid yn syth, mae'r holl brofiadau gymnasteg yma yn yr ysgol wrth fynd i Aberystwyth ambell waith ac ennill yn Sir Ddinbych yn un o fy Uchafbwyntiau Gorau. Hefyd, ar y buarth wrth i mi chwarae gwelaf plant yn chwarae pel droed. Mae'r chwiban wedi chwythu ond y gol yn deilchion ar y llawr.

A dyma fi yn Ysgol Pentrecelyn yn edrych ymlaen i'r dyfodol.
A ble bynnag fory bydd fy nhraed bydd Pentrecelyn yn fy ngwaed.

Anest
Bl 6
2020